CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**01.06.23**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) JAJ; RY; EY; TAJ; AR; RJ; DP; IW; EO;<br>**Ymddiheuriadau:** DAW; LLMH; GW<br>**Yn mynychu:** Cyng Jackie Lewis; SWR |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd Cyng JL ddiddordeb yn Eitem 6 – Materion Cynllunio. |
| **3** | **Cofnodion 04.05.23** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 04.05.23 fel rhai cywir (TAJ/AR) ac eithrio nodi bod penderfyniadau ynglŷn â'r Clwb Snwcer ddim yn unfrydol.<br><br>**Materion yn Codi**<br>• **Stafell Snwcer -** Nododd y Clerc mai ei dealltwriaeth oedd bod CC Llan am geisio barn y gymuned ynglŷn ag ail-sefydlu'r Clwb Snwcer ac ymddiheurodd os oedd y cofnodion ddim yn adlewyrchiad teg o hyn. Adroddodd y Clerc nad oes cyfarfod wedi ei drefnu hyd yma ac nad oedd camau pellach chwaith i holi'r gymuned am yr awydd i ail-sefydlu'r Clwb Snwcer. Nododd bydd trafodaeth am geisio am yr arian sy'n waddol o gronfa'r Pwyllgor Rheoli'r Neuadd yn digwydd yn y cyfarfod. Dymunodd JAJ nodi nad yw o'r farn ei fod yn syniad da i ystyried ail-sefydlu Clwb Snwcer gan y gallasai addasu Uned 1 Tan y Foel fod yn gostus i C C Llan a dim sicrwydd am barhad y defnydd. Byddai hyn hefyd yn colli cyfle am incwm wrth ail-osod yr Uned. Nodwyd hefyd bod dyfodol Unedau Tan y Foel dan drafodaeth am eu dyfodol. Nododd TAJ bod y Corff Lywodraethu yn cytuno i'r arian yng nghronfa Pwyllgor Rheoli'r Neuadd gael ei glustnodi ar gyfer unrhyw welliannau i ardaloedd cymunedol yr Ysgol a ddim i'w ychwanegu at unrhyw gronfa arall. Trafodwyd storio'r byrddau. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Cytunwyd i'r Clerc ofyn i'r Pennaeth am gael storio'r byrddau dros dro yn y caban yn dilyn trosglwyddiad y dosbarth i'r hen stafell snwcer. Hefyd, gofyn i'r adran addysg eu symud yn sgil y trosglwyddo disbarth. Awgrymwyd i ystyried holi'r gymuned am ail-sefyldu'r Clwb Snwcer yn dilyn cwblhau'r symudiadau uchod. Cynigiodd TAJ i'r Clerc drafod materion storio gyda'r Pennaeth a gohirio mater ceisio barn y gymuned ar sefydlu clwb snwcer am y tro, eiliwyd gan DP a chytunwyd yn unfrydol.<br><br>• **Materion Priffyrdd -** cyfeiriwyd at yr ymweliad safle a thrafodwyd y CG Priffyrdd a ddosbarthwyd eisoes. Cytunwyd i ychwanegu cais i ostwng cyfyngder gyrru i 50 m.y.a. rhwng Llan a Rhosybol yn dilyn damwain ddifrïol ddiweddar. Ychwanegu cais i ail-osod holl linellau gwyn sydd wedi gwisgo ar ffyrdd drwy'r pentref. Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn eitem barhaol ar raglen cyfarfodydd y dyfodol .<br><br>• **Cloc y Pentref -** nododd y Clerc bod e-bost gan gwmni Smiths of Derby wedi ei gylchredeg eisoes a thrafodwyd y camau nesaf. Nodwyd bod y gost gyfan tua £7K ac er bod hyn yn bwysau ar gyllideb CC Llan dylid gwneud pob ymdrech i geisio cefnogaeth ariannol i sicrhau hanes a dyfodol y Cloc. Cytunwyd i'r Clerc holi am grantiau posib ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf<br><br>• **12/13 Stryd Fawr -** eglurodd y Clerc am y broses 'Adverse Possession'. Dywedodd bod ein Twrna arferol yn gweithredu ar ran un arall sydd wedi gwneud cais 'Adverse Possession' I Gofrestrfa Tir. Cytunwyd i'r Clerc chwilio am gyngor pellach gan gyfreithiwr amgen.<br><br>• Adroddodd y Clerc ei bod wedi adnewyddu'r polisi yswiriant yn dilyn cadarnhau bod y mynwentydd yn gynwysedig ac ychanegu staffio. Nodwyd hefyd bydd adolygiad pellach gan yr Is bwyllgor Cyllid nesaf. Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 01.06.23 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Grŵp LlanNi** - adroddodd y Clerc am sefyllfa ddiweddaraf Grŵp LlanNi. Mae CC Llan bellach wedi derbyn cadarnhad am denantiaeth y siop. Y cam nesaf fydd arwyddo'r denantiaeth yn dilyn cyngor a chadarnhad gan Rhys Jones. Mae trefniadau yn mynd rhagddo i sicrhau pensaer ar gyfer cyflwyno cynlluniau derbyniol i lunio cais am y grant Loteri Fawr.<br><br>• **Eglwys Ceidio** - adroddodd y Clerc am bryder gan Alan Kennet am gyflwr allanol yr Eglwys. Nododd bod angen trwsio'r to a |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

‘pwyntio’r’ waliau. Gynigiodd chwilio am amcan brisiau - nid oes diweddariad i law. Diolchwyd i Mr a Mrs Kennet am eu gofal gwirfoddol o’r Eglwys.

- **Maes Athen -** adroddodd JAJ bod pryder am gyflwr rhai ardaloedd ar y Stad Maes Athen. Nodwyd bod sbwriel a llanast cyffredinol yma ac acw a bod hyn yn ofid i’r trigolion hynny sy’n cadw eu heiddo yn daclus. Cytunodd Cyng. Jackie Lewis i gysylltu ag Adran Eiddo CSYM ac i’r Clerc nodi pryder CC Llan yn ffurfiol hefyd.

**5** **Materion Cyllidol a Thaliadau**

**Taliadau Misol**
**Gwariant ers cyfarfod Mai** –

| **Biliau cyfredol**: | £ |
|---|---|
| Cyflog Clerc Mehefin & 1 taliad ZOOM | 506.28 |
| Mac Venture – cyfarpar Newydd i Glan Menai | 3432,00 |
| CSYM - Les Glan Menai | 34.74 |
| IG Jones 2021 - costau am waith cyfrifo 2021 | 216.00 |
| I G Jones 2022 - costau am waith cyfrifo 2022 | 228.00 |
| Bagiau dal sbwriel a bachwr sbwriel (RJ/Clerc) | 11.99 |

Nododd y Clerc bod taliad wedi ei wneud o’i chyfrif cerdyn credyd personol i adnewyddu trwydded safle Gwe CC Llan. Cytunwyd i ad-dalu i’r Clerc sef
WIX.com 302.00
Cadarnhaodd y Clerc bod manylion taliadau i’r dyfodol wedi newid i gyfrif CC LLan bellach.

**Sefyllfa gyfredol**
Cyfrif Cyfredol: £ 16348.24
Cyfrif Cadw: £ 1444.17

**6** **Materion Cynllunio**

• **FPL/2022/328 – Bryn Hafod Llannerchymedd** – cytunwyd i gyflwyno’r sylwadau canlynol:

- Pryder am brysurdeb trafnidiaeth ar y ffordd B5111 o flaen y safle.
- Dylid sicrhau palmentydd addas at y safle
- Dylid sicrhau golau stryd digonol ger y safle
- Cwestiynu os oes angen sefydlu Caffi/Bar i’r safle gan fod digon


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | o adnoddau ar gael yn y pentref eisoes.<br>❖ Nodir bydd cyflogaeth o 2 swydd llawn amser a 6 rhan amser – a fydd y rhain yn swyddi i bobl leol?<br>❖ Pryder am or-ddatblygu gan fod nifer o gyfleusterau gwyliau lleol yn bodoli eisoes<br><br>• **FPL/2023/116 – Old Police Station Llannerchymedd** – codi ty haul. Dim gwrthwynebiad<br><br>• **VAR/2023/29 – Old Police Station (variation)** –<br>Cytunwyd i gyflwyno'r sylwadau canlynol:-<br>❖ Siom bod nifer y ceisiadau ôl–weithredol ar gynnydd<br>❖ Cwestiynu pam na fu goruchwyliaeth Rheolaeth Adeiladu ar y brosiect<br><br>• **HHP/2023/94 – Ael y Bryn Coedana –** dim gwrthwynebiad. |
| **7.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir**<br><br>Cyfeiriodd Cyng Jackie Lewis at<br>❖ Ebost gylchredwyd eisoes (11.5.23) am ddyfodol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE) a'i Gynllun Rheoli Cyrchfan newydd. Bydd adborth a gesglir drwy broses ymgynghori yn helpu Cyngor Sir Ynys Môn i adolygu a datblygu'r ddau gynllun rheoli pwysig hwn, wrth edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben 9 Mehefin 2023 – unrhyw sylwadau i'r Clerc mor fuan a phosib er mwyn llunio ymateb.<br><br>❖ **Cynllun Amgylcheddol –** nododd bod angen i Cynghorau Tref a Chymuned lunio cynllun a chytunodd i rannu gwybodaeth berthnasol gyda'r Clerc. |
| **8** | **Materion Safleoedd**<br>• **Cae Gofeb/Ysgol Haearn –** dim i law<br>• **Unedau Tan y Foel –** cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 3.7.23<br>• **Safle'r Stesion -** nododd y Clerc ei bod wedi holi Liam Jones am amcan bris ond heb dderbyn hyd yma.<br><br>Cyfeiriwyd at e-bost a gylchredwyd eisoes (22.5.23) yn |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | amlinellu'r drafodaeth rhwng Carolyn Owen a Rhys Jones am y cytundeb tenantiaeth. Cyfeiriwyd at wasanaeth da'r tenant a'r pwysigrwydd o'i chefnogi gan gydnabod bod y blynyddoedd diweddar wedi cyflwyno sawl sialens i ymdopi fel busnes bach. Yn dilyn trafodaeth cynigiodd TAJ i rent o £160 y mis ( yn hytrach na'r £200 a argymhellwyd yn adroddiad RJ) gan ddechrau 1 Mehefin 2023. Hefyd i ddilyn yr argymhelliad o greu Tenancy at Will i'w adolygu 30.10.23. Eiliwyd gan AR a chytunwyd yn unfrydol.<br><br>Peiriant Coffi - adroddodd y Clerc bod Carolyn Owen wedi treialu cynnig amgen o gael peiriant coffi am ddim gyda thaliad ychwanegol am goffi arbennig trwy'r cwmni o Niwbwrch. Yn dilyn y treial ni dderbyniodd Carolyn adborth positif am y coffi ac mae wedi gwrthod y cynnig. O ganlyniad, mae angen edrych eto ar archebu peiriant coffi fel adnodd CC Llan i'r Caffi. Nododd Cyng. JL ei bod yn ymwybodol o gwmnïau eraill heblaw Coffi Dwyfor (sydd wedi cyflwyno prisiau eisoes) Clerc i ymchwilio ymhellach i gwmnïau eraill a gadael i Carolyn wybod<br><br>• **Mynwentydd** - adroddwyd JAJ bod sylwadau i law am wair hyd y cerrig beddi yn dilyn toriadau. Nodwyd bod hyn yn anodd ei ddatrys gan na ellir disgwyl i'r contractwr lanhau'r cerrig ar ei ôl.<br><br>Ymddiheurodd y Clerc nad oedd yr isod ar y Rhaglen fel a gytunwyd.<br>• **Clwb Peldroed** – dim i law<br>• **Lawnt Fowlio** – dim i law |
| **9.** | **Gohebiaeth**<br><br>**Llythyr gan blant Ysgol Llan -** nododd y Clerc ei bod wedi derbyn gohebiaeth gan nifer o blant yr Ysgol Gynradd yn dilyn cwblhau prosiect ar sbwrela yn y pentref. Cytunwyd i'r Clerc lunio ateb yn nodi eu sylwadau ac yn amlinellu bwriadon CC Llan i geisio ymateb i broblem sbwrela yn y pentref. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8.55* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com